

Gwybodaeth i Gleifion

Angiograffi Fflworesin

Uned Llygaid

Beth yw angiograffi fflworesin?

Mae hwn yn brawf syml, sy'n galluogi tynnu ffotograff o'r gwythiennau gwaed yng nghefn y llygad ar ôl i ddei melyn gael ei chwistrellu drwy wythïen yn y fraich.

Pam fod angen y driniaeth hon?

- I helpu'r meddyg i gadarnhau diagnosis
- I roi canllawiau ar gyfer triniaeth os oes angen
- Cadw cofnod o'r cyflwr yng nghefn eich llygad.

Beth sy'n digwydd yn ystod y prawf?

- Caiff y prawf ei gynnal yng Nghlinig y Llygaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent.
- **Byddwch yn cael diferion a fydd yb pylu eich golwg, felly ni chewch yrru i'r clinig.**
- Yn ystod yr apwyntiad, caiff dei melyn ei chwistrellu i wythïen yn eich braich.
- Mae'r dei'n cyrraedd y llygad o fewn 30 eiliad. Yna caiff cyfres o ffotograffau eu cymryd wrth i'r dei fynd i'r gwythiennau yng nghefn eich llygad.
- Dylech aros 15 munud ar ôl y prawf nes mynd adref.

A oes sgil-ffeithiau?

- Ddim i'r rhan fwyaf o bobl.
- Gallech deimlo'n gynnes neu bwl o boethni wrth gael pigiad. Mae rhai pobl yn teimlo fymryn yn sâl neu'n llewyg ond ychydig eiliadau y bydd hyn yn ei bara.
- Bydd y dei yn troi'ch croen fymryn yn felyn a bydd eich wrin yn felyn llachar.
- Mae hyn yn hollol normal a gall bara 2-3 diwrnod.
- Mae'n brin iawn, ond gall rhai cleifion gael anawsterau anadlu neu waedlif a gorfod cael cymorth tîm argyfwng.

Alla i fwyta ac yfed cyn y prawf?

Dylech. Mae'n syniad da cael pryd ysgafn cyn y prawf. Os oes gennych ddiabetes, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael digon i'w fwyta.

A ddylwn i gymryd fy meddyginiaeth arferol?

Dylech. Dylech barhau i gymryd eich holl feddyginiaeth. Dewch â'ch holl feddyginiaeth â chi, yn enwedig anadlyddion a chwistrell GTN, i'r ystafell gamera.

Ddylwn i roi gwybod i chi am fy hanes meddygol?

- Dylech, mae hyn yn bwysig iawn.
- Rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau y gallai fod gennych.
- Os ydych chi'n meddwl y gallech fod yn feichiog, rhowch wybod i'r staff nyrsio/meddygol.

A gaf i yrru?

- Na. Bydd y diferion yn troi'ch golwg yn aneglur, felly ni chewch yrru i'r clinig nac ar ôl y prawf nes i'ch golwg ddychwelyd.
- Sicrhewch fod rhywun yn dod gyda chi i'r clinig.

Pryd byddaf yn cael gwybod y canlyniadau?

Ni fyddwch yn cael canlyniadau'r prawf ar unwaith. Bydd yn rhaid astudio'r delweddau'n fanwl. Bydd y meddyg yn rhoi canlyniadau i chi yn yr apwyntiad nesaf.

Apwyntiad

_____diwrnod_____20_____

_____am _____

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**